# Min y Traeth Gwanwyn 2017

**Bwletin i rieni Ysgol Eifionydd** www.ysgoleifionydd.org

Rhifyn : 5

Ysgol Eifionydd Porthmadog

**Gair gan y Pennaeth:** Mae uchelgais yn hafnodol. A hithau yn agosáu at dymor yr arholiadau a phrofion, gofynnaf i bob disgybl ymdrechu i baratoi ac ymarfer ar eu cyfer. Rydym wedi hybu ein disgyblion i ddangos ymdrech barhaus ar hyd y flwyddyn ac i gydweithio gyda'r athrawon a chyd-ddisgyblion er mwyn manteisio ar unrhyw gyfleoedd. Eleni mae blwyddyn 10 ac 11 yn wynebu arholiadau TGAU newydd sbon heriol mewn nifer o bynciau a hoffwn ddymuno'n dda iddynt.

## Dyddiau Pwysig

- **Pasg - 10 – 21 Ebrill, 2017**
- **Calan Mai - 01/05/17**
- **HMS – 02/05/17**
- **Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol ac arholiadau mewnol - 3 – 12/05/17**



Philipa Tuttiett – Cafodd Llysgennad Sky Sports Living am Chwaraewr Gwledydd Cartref y flwyddyn ei chroeawu i Ysgol Eifionydd dydd Iau 16/03/17 i rannu ei llwyddiannau gyda genod Bl.7, 8, 9 a 10. Mwynhaodd y genod sesiwn hyfforddi hefyd.

**Gemau Rhyngwladol**

Llongyfarchiadau i Cassia Pike a Shannon Dukes am gynrychioli Cymru yn nhîm pêl droed merched dan 17 allan yn Bosnia. Enwyd Shannon yn chwaraewraig y twrnament.

Bu Cari Davies yn cynrychioli Cymru yn y tîm hoci cenedlaethol dan 18. Llwyddodd Cari i sgorio'r gôl fuddugol yn erbyn Iwerddon. Hoffwn ddymuno pob lwc i'r dair yn eu gyrfaoedd rhyngwladol.

**Diwrnod Trwynnau Coch**

Ar y 24ain o Fawrth i gefnogi'r apêl Comic Relief, cawsom ddigwyddiad llwyddiannus iawn drwy gynnal cwis yn ystod yr awr ginio rhwng disgyblion Bl.11 a'r athrawon i godi arian tuag at yr achos. Bu i'r disgyblion ymfalchïo yn eu llwyddiant o ennill yr athrawon a llwyddwyd i godi £125.71. Da iawn chi.

**Gweithdy Cyfiawnder Mewn Diwrnod** yng Nghaernarfon i ddisgyblion Blwyddyn 9 ar y 24ain o Fawrth gyda disgyblion o Ysgol Dyffryn Nantlle. Cafodd y disgyblion flas ar ambell i yrfa yn ymwneud â'r gyfraith wrth weld achos troseddol yn cael ei ail-greu gan Theatr Clwyd.



**Eisteddfod yr Urdd** - Ddydd Sadwrn, Ebrill y $1^{af}$ cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Llongyfarchiadau gwresog i'r rhai a gymerodd ran ac ar eu llwyddiant. Pob dymuniad da i'r cystadleuwyr buddugol wrth iddynt gynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd Ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn ystod gwyliau'r Sulgwyn.

Aeth criw o ddisgyblion 5x60 yr ysgol ar ymweliad i 'Bounce Below' Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog dydd Llun 20/03/17. Bu i'r disgyblion fwynhau cyfnod difyr a hwyliog yn neidio a chadw'n heini ar y rhwydi yn yr hen geudyllau llechi.



**Clwb Drama**

Teithiodd Clwb Drama yr ysgol i set 'Rownd a Rownd' p'nawn Mercher, $15^{fed}$ o Fawrth. Cafodd y disgyblion y cyfle i gerdded o amgylch y set, gweld gwisgoedd rhai o'r cymeriadau a chael y cyfle i weld un lleoliad newydd sbon y gyfres. Profiad a phrynhawn gwerth chweil i Miss Llio Dudley a'r criw.






**Meddygon y dyfodol?** – Daeth Ffion Trythall ac Elen Puw, myfyrwyr Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd a chyn ddisgyblion i siarad gyda nifer o ddisgyblion blynyddoedd 9, 10 ac11 am sut i baratoi at yrfa feddygol. Trafodwyd pa brofiadau a chymwysterau oedd angen ar gyfer y maes pwysig hwn.

**Success Revision - Cwrs Adolygu at Arholiadau Bl.11** – Dydd Gwener, $24^{ain}$ o Fawrth cynhaliwyd gweithdy adeiladol i ddatblygu meddylfryd positif tuag at adolygu ar gyfer disgyblion blwyddyn 11. Cyflwynwyd dulliau amrywiol o adolygu yn effeithiol a oedd o gymorth mawr. Ar ddiwedd y gweithdy cwblhaodd y disgyblion holiadur yn rhoi adborth ac roedd yr adborth yn hynod bositif ac yn cytuno fod y gweithdy wedi bod yn werthfawr iawn iddynt.

**Camau Cywir – Cyngor ar gyfer paratoi am arholiadau.**

- Ceisiwch esbonio a disgrifio syniadau gyda llawer o fanylion.
- Ymarferwch eich meddwl trwy ddwyn gwybodaeth i gof, ond heb edrych ar yr ateb mewn llyfr.
- Astudiwch dros gyfnod o amser gan sicrhau bylchau rhwng ymarferion.
- Ceisiwch gyfuno geiriau a delweddau yn eich nodiadau adolygu.
- Cyfnewidiwch rhwng syniadau wrth asudio.
- Defnyddiwch enghreifftiau penodol i geisio deall syniadau haniaethol.

**Fforwm Rhieni**: Bwriad y fforwm yw rhoi cyfle i rieni fynegi barn am faterion yn ymwneud â'r ysgol. Penderfyniad y fforwm yw bwrw ymlaen i sefydlu Cymdeithas Ysgol Eifionydd fel corff cyfreithiol i ddenu rhieni â'r gymuned ehangach er mwyn cefnogi'r ysgol yn ariannol o fewn y gymuned leol. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 24/05/2017 am 6.30 y.h.

**Gallwch weld mwy o luniau o lwyddiannau'r disgyblion drwy fynd i www.ysgoleifionydd.org**

# Min y Traeth Spring 2017

**Ysgol Eifionydd Parents' Bulletin** www.ysgoleifionydd.org **Issue : 5**

Ymlaen
Ysgol Eifionydd
Porthmadog

**A few words from the Headteacher**: The season of examinations and tests is fast approaching and I would ask every pupil to strive to prepare and practise. During the year we have encouraged our pupils to show continuous effort and to co-operate with their teachers and fellow pupils in order to make the most of any opportunities. This year both year 10 and 11 are facing challenging brand new GCSE examinations in many of their subjects and I would like to wish them well.

## Important Dates

- **Easter – 10 – 21 April, 2017**
- **May Day – 1/05/17**
- **HMS – 02/05/17**
- **National Reading and Numeracy Tests and Internal Examinations – 03 – 12/05/17**



Philipa Tuttiett – the ambassador for Sky Sports Living for Sports and Home Nations player of the year - was welcomed to Ysgol Eifionydd on Thursday 16/03/17 to share her success with girls from Year 7, 8, 9 a 10 who have their own ambitions. The girls also experienced a training session, which was very much enjoyed.

**International Games**
Congratulations to Cassia Pike and Shannon Dukes who represented Wales in the under 17s women's football team out in Bosnia. Shannon was named player of the tournament. Meanwhile Cari Davies was representing Wales in the national under 18's hockey team. Cari managed to score the winning goal against Ireland. We would like to wish all three well in their international careers.

**Comic Relief**
On the 24th of March in support of Comic Relief we had a very successful event by holding a quiz during the lunch hour between teachers and Year 11 pupils to raise funds for the cause. The pupils took immense pleasure in their win and raised £125.71. Well done.

On the 24th of March Year 9 pupils joined Year 9 pupils from Ysgol Dyffryn Nantlle in a Justice in a Day workshop in Caernarfon. Pupils were given previews of a career into law related criminal cases that were recreated by Theatre Clwyd.



**Urdd Eisteddfod** – The County Eisteddfod was held on Satudray, 1st of April in Llanrug. Congratulations to those who took part and to those who were successful. Good luck to the winners as they represent Snowdonia in the Urdd Eisteddfod in Bridgend during the Whitsun holidays.

5 x 60 pupils went to 'Bounce Below', Llechwedd in Blaenau Ffestiniog on Monday 20/03/17. The pupils enjoyed a session of jumping and keeping fit on the nets in the former slate caverns.



**Drama Club**
On Wednesday afternoon the 15th of March, the Drama Club pupils visited the set of the Welsh Soap 'Rownd a Rownd'. They were given the opportunity to walk around the sets, see costumes, see some of the characters and get the chance to see a brand new location in the series. An enjoyable and worthwhile experience for Miss Llio Dudley and the pupils.






**Success Revision course for Year 11 examinations** – On Friday 24/03/17 a constructive workshop was held to develop a positive mind-set towards revising for Year 11 pupils. Pupils were presented with various methods for effective revision which proved helpful. At the end of the workshop the pupils completed a questionnaire giving feedback which was very positive and they agreed that the workshops had been valuable.

**Future doctors?**
Ffion Trythall and Elen Puw, medical students from Cardiff University and former pupils, came to talk to a number of pupils from year 9, 10 and 11 on how to prepare for a medical career. They discussed what experiences and qualifications would be needed for this important field.

**Top Tips – Advice in regards to preparing for exams.**

- Try and explain and describe ideas with many details.
- Practise bringing information to mind, but without looking at the answers in the book.
- Space out your studying over time.
- Try and combine words and visuals in your revision notes.
- Switch between ideas while you study
- Use specific examples to understand abstract ideas.

**Parents' Forum**: The forum will give parents the opportunity to express their opinions relating to school matters. The decision of the forum was to form the Ysgol Eifionydd Society as a legal entity in order to attract parents and the wider community to support the whole school financially within the local community.
Next meeting: 24/05/17 at 6:30p.m.

**You can see more pictures of the pupils' successes by visiting www.ysgoleifionydd.org**

**Attendance Competition**

On Tuesday morning, March 8th, with the school hall packed for the morning assembly, the winner of this year's Attendance Competition was announced. The names of all pupils who have a high attendance rate of over 98% was put in a hat with a chance of winning an i-pad. The lucky winner was Josh Gallimore, Year 8. Congratulations to him and we hope he will have hours of benefit and enjoyment from his prize.